

WAST Yn Cysylltu

RHAGFYR 2023



**I Gefnogi.
I Wasanaethu.
I Achub.**

Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i newyddlen newydd sbon gan Wasanaeth Ambiwylans Cymru, a pha amser gwell i gysylltu â'n cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid nag yng nghanol ein cyfnod prysuraf – y gaeaf. Mae'r newyddlen hon yn disodli'r diweddariad Tu ôl i'r Penawdau ac mae wedi'i gynllunio i fod yn siop un stop ar gyfer newyddion a diweddariadau pwysig am ein gwasanaeth, yn ogystal â dathliad o'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n mynd y tu hwnt bob dydd i helpu pobl Cymru. Yma fe welwch y ffeithiau a'r ffigurau sy'n adrodd hanes ein perfformiad bob mis, yn ogystal â'r holl ffyrdd o gymryd rhan yn ein gwaith, o ddigwyddiadau yn eich ardal i'r cyfleoedd i ymuno â #TîmWAST os ydych chi wedi'ch ysbrydoli. Diolch am rannu'r daith hon gyda ni, ac os oes gennych unrhyw adborth am newydd wedd y newyddlen, rhowch wybod i ni yn WAS.Communications@wales.nhs.uk. Mwynhewch y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cadwch yn ddiogel.



Jason Killens
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans
Cymru

Cipolwg ar Berfformiad

Tachwedd 2023			
 Bu 33,825 o ddigwyddiadau 999	 Fe wnaeth ein gwasanaeth brys gludo 15,208 o bobl i'r ysbyty	 Cwblhaodd ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys 49,987 o deithiau	 Bu 82,447 o alwadau i GIG 111 Cymru
 Mynychodd ein criwiau 4,675 o alwadau coch lle'r roedd bywyd mewn perygl uniongyrchol			 Mynychwyd 903 o ddigwyddiadau gan Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Gwirfoddol
			 Cwblhaodd ein Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol 3,802 o deithiau

Behind the Headlines



Uwchraddio uwch-dechnoleg ambiwlansys yn dechrau

Mae uwchraddio ambiwlansys o'r radd flaenaf yng Nghymru wedi dechrau. Bydd y gwaith adnewyddu technoleg gwerth £23 miliwn yn gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo rhwng ystafelloedd rheoli a'r criwiau rheng flaen sy'n darparu gofal i gleifion. Dywedodd Cyfarwyddwr Digidol Jonny Sammut: "Mae'r adfywio technoleg hwn yn arwydd o gyfnod newydd yn ein cyfathrebiadau, ac un a fydd yn gwella'r cysylltiad pwysig rhwng cydweithwyr yn yr ystafell reoli a'r criwiau yn y gymuned sy'n darparu gofal i gleifion." Cliciwch [yma](#) i ddarllen y stori'n llawn.

Goroeswr ataliad y galon yn aduno ag achubwyr bywyd

Mae cynorthwydd gorsaf betrol a gafodd ataliad ar y galon yn y gwaith wedi diolch i'w gŵr, ei chydweithwyr a'r criw ambiwlans a achubodd ei bywyd. Roedd Jayne Partridge, 55, newydd ddechrau ei shifft yng ngorsaf lenwi Tesco ym Mhort Talbot pan ddechreuodd deimlo'n sâl. O fewn munudau, roedd y fam i ddau o blant mewn ataliad y galon llawn. Dywedodd Jayne: "Ces i'r driniaeth orau o'r dechrau i'r diwedd. Dw i jyst eisiau diolch i'r criw am bopeth wnaethon nhw, o'n nhw'n anhygoel." Cliciwch [yma](#) i ddarllen stori Jayne.



Parafeddyg yn ail-fyw ei ddioddefaint o gael ei boeri arno gan glaf

Mae parafeddyg a gafodd ei boeri arno a'i rhegi ato gan glaf wedi ail-fyw ei ddioddefaint. Roedd angen triniaeth ysbyty ar Geoff Williams, sydd wedi'i leoli yng Nghas-gwent, wedi ymosodiad gan y dyn yr oedd yn ceisio ei helpu. Mae'r dyn 34 oed yn disgrifio teimlo'n 'frwnt' yn dilyn y digwyddiad, a wnaeth ei adael yn methu gweithio gweddill ei sifft. Dywedodd Geoff: "Mae ymosodiad ar un ohonom yn ymosodiad ar bob un ohonom. Dw i'n dod i'r gwaith i helpu pobl, i beidio â dioddef ymosodiad. Roedd hyn yn teimlo'n bersonol - roedd cymaint o falais." Cliciwch [yma](#) i ddarllen stori Geoff.

Lansio Pecyn Croeso newydd

Rydym yn falch iawn ein bod wedi lansio adnodd newydd defnyddiol ar gyfer cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r Pecyn Croeso rhithwir yn esbonio mewn termau syml sut mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gweithio a phryd y mae'n briodol i ffonio 999. Mae'n disgrifio beth i'w wneud os oes angen dehonglydd arnoch ar alwad 999, y cwestiynau y bydd rhywun sy'n delio â galwadau yn eu gofyn, sut mae galwadau'n cael eu blaenoriaethu a beth fydd gweithwyr ambiwlans yn ei wneud os ydyn nhw'n dod i'ch gweld. Mae teclyn cyfieithu ar-lein yn galluogi defnyddwyr i gyrchu'r adnodd yn eu hiaith eu hunain. Cliciwch [yma](#) i ddysgu mwy.





Defnyddio robotiaid i helpu gyda thasgau ailadroddus

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio technoleg Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA) i gyflawni tasgau gweinyddol sy'n cymryd llawer o amser i ryddhau staff i ganolbwyntio ar dasgau sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf. Mae'r defnydd o robotiaid meddalwedd, neu 'weithwyr digidol', yn arbed amser ac yn caniatáu i gydweithwyr harneisio eu sgiliau'n fwy priodol. Cliciwch [yma](#) i ddarllen y stori'n llawn.

Cymryd rhan

Ymunwch â'n Rhwydwaith Pobl a Chymuned

Mae'r Rhwydwaith Pobl a Chymuned yn agored i gleifion, gofalwyr, grwpiau cymunedol neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y ffordd y mae ein gwasanaeth yn gweithio. Cymerwch arolygon, mynychwch gyfarfodydd, cymerwch ran mewn ymarferion 'cwsmer cudd' a rhannwch eich profiad o'n gwasanaeth ambiwlans i siapio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Cliciwch [yma](#) i ymuno.



Llunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd

Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a staff i rannu eu barn am sut y gallwn wneud Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn fwy cynhwysol. Cliciwch [yma](#) i ddarllen ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft a dweud eich dweud.



Digwyddiadau

- **Gwasanaeth Carolau Gwasanaethau Brys De Cymru**
Dydd Iau 7 Rhagfyr am 7pm yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd – Mae lleoedd ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Llenwch y ffurflen [hon](#) os hoffech chi fynychu.
- **Gwasanaeth Carolau Gwasanaethau Brys Gogledd Cymru**
Dydd Llun 11 Rhagfyr, 7.30pm yng Nghadeirlan Bangor, Gwynedd – perfformiadau gan Seindorf Beaumaris, Côr Ieuencid Môn ac Arwyn Tudur Jones. Mae mynediad yn rhad ac am ddim ac mae croeso i bawb. Bydd ennillion yn mynd i Gymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru.

Ymgyrch y Mis

